



2pm, ddydd Mawrth, 25 Ebrill 2023
Neuadd y Sir, Caerfyrddin

COFNODION

Yn Bresennol	
Enw	Sefydliad
Y Cynghorydd Darren Price (Cadeirydd)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Noelwyn Daniel	Cyngor Sir Caerfyrddin
Mydrian Harries	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jo McCarthy	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Andrew Charles	Llywodraeth Cymru
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Barry Liles	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Vanessa Cashmore	Coleg Sir Gâr
Martyn Williams	Adran Gwaith a Phensiynau

Hefyd yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Alex Cook	Cyngor Sir Caerfyrddin
Beth Cossins	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Eldeg Rosser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gaynor Megicks	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	
Enw	Sefydliad
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Phil Kloer	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Kelvin Barlow	Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf
Cassandra Bennett	Adran Gwaith a Phensiynau

Croesawodd y Cynghorydd Darren Price, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod a nododd fod y Bwrdd yn edrych ymlaen at gael Cassandra Bennett yn ymuno o'r Adran Gwaith a Phensiynau yn Lle Wyn Morris. Diolchodd i Wyn am ei gyfraniad i'r BGC.

2. Ymgynghoriad ar Safle Ysbyty Newydd

Rhoddodd Eldeg Rosser, Pennaeth Cynllunio Cyfalaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, amlinellid ynghylch ymarfer ymgynghori'r Bwrdd Iechyd sy'n dod i ben ar 19 Mai. Mae digwyddiadau ymgysylltu wedi bod yn cael eu cynnal mewn cymunedau lleol. Mae'r gwaith ymgynghori'n nodi tri safle posibl ar gyfer Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio newydd - dau ger Hendy-gwyn ar Daf ac un ger Sanclêr.

Gwahoddir barn ynghylch pa un yw'r lleoliad gorau ar gyfer yr ysbyty newydd a pham, ynghyd ag unrhyw bryderon am y tri safle posibl ac unrhyw ystyriaethau eraill. Rhoddodd y cyflwyniad ragor o wybodaeth yn ymwneud â phob safle posibl gan amlinellu'r cynlluniau ar gyfer yr ysbytai newydd a phresennol.

Roedd y prif gwestiynau a godwyd ar y gwaith ymgynghori yn Sir Gaerfyrddin ynghylch y pellter hirach y byddai angen ei deithio i'r ysbyty newydd yn hytrach na mynd i Ysbyty Glangwili. Eglurwyd y bydd yr apwyntiadau arferol ac apwyntiadau cleifion allanol yn parhau i gael eu cynnal yn Ysbyty Glangwili a bydd yr ysbyty newydd yn darparu gwasanaethau fel rhai aciwt, brys, pediatrig a llawfeddygol. Roedd yn beth cadarnhaol y bydd rhagor o wasanaethau'n cael eu darparu'n lleol wrth i hybiau cymunedol gael eu datblygu i helpu o ran darparu gwasanaethau'n nes at y cartref. Y canlyniad yn y pen draw fydd llai o amseroedd aros, proses mwy di-dor ac ansawdd gofal gwell.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y Strategaeth Deithio a Thrafnidiaeth a rhannwyd manylion swyddog perthnasol y Cyngor, sef Simon Charles, Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth a Seilwaith.

Y CAM GWEITHREDU

Rhannu sleidiau ar gyfer yr 'Ymgynghoriad ar Safle Ysbyty Newydd'	Tîm Cymorth y BGC
Anogwyd partneriaid y BGC i ymateb i'r ymgynghoriad fel sefydliadau ac fel aelodau o'r cyhoedd cyn y dyddiad cau, sef 19 Mai: Ar-lein ar https://biphdd.gig.cymru/amdanom-ni/canolbarth-a-gorllewin-iachach/safle-ysbyty-newydd/ neu ar e-bost: hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk	PAWB
Anfon manylion cyswllt y swyddog at Eldeg Rosser ynghylch ymgysylltu ar deithio llesol	Beth Cossins

3. Gweithdy Mapio'r System o ran Pwysau Iach – adborth ar fapiau'r system

Rhoddodd Beth Cossins, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, drosolwg o'r adborth o'r gweithdy a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid allweddol yn Sir Gaerfyrddin ar 7 Chwefror, ynghyd â'r gwaith mapio a wnaethpwyd.

Trafodwyd yr heriau a wynebir oherwydd y lefelau cynyddol o ran gordewdra yn lleol. Nodwyd bod y lefelau'n uwch mewn cymunedau lle mae amddifadedd yn uwch ac felly mae hyn yn cynyddu anghydraddoldeb. Bydd yr argyfwng costau byw yn gwthio rhagor o deuluoedd i dlodi bwyd ac felly mae'n debygol y bydd y bwch hwn yn gwaethygu a bydd mwy o anghydraddoldeb os na eir i'r afael â hyn nawr.

Lansiwyd 'Strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach' Llywodraeth Cymru yn 2019 [Strategaeth Pwysau Iach \(Pwysau Iach Cymru Iach\) | LLYW.CYMRU](#). Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu tîm lleol ym mhob Bwrdd Iechyd lleol sy'n cynnwys Uwch-ymarferydd, Prif Ymarferydd a chymorth gweinyddol.

Yn Hywel Dda, mae dull rhanbarthol wedi'i roi ar waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Beth Cossins yw'r Arweinydd Rhanbarthol. Mae'r tîm wedi'i sefydlu i lywio'r dull systemau cyfan sy'n cwmpasu'r saith maes blaenoriaeth cenedlaethol a nodwyd ar gyfer 2022-24:

- Llywio'r amgylchedd bwyd a diod tuag at opsiynau cynaliadwy ac iachach;
- Annog a chefnogi teuluoedd i ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd, o'r cyfnod beichiogrwydd i'r blynyddoedd cynnar;
- Gwella datblygiad y system atal sy'n galluogi arweinyddiaeth ar bob lefel;
- Galluogi amgylcheddau a mannau llesol er mwyn annog mwy o symud mewn bywyd bob dydd;
- Adeiladu ar ddatblygu gwasanaethau cymorth teg i bobl gyrraedd pwysau iach neu ei gynnal;
- Dileu rhwystrau er mwyn lleihau anghydraddoldebau deiet ac iechyd ar draws y boblogaeth;
- Galluogi ein lleoliadau addysg i fod yn lleoedd lle mae iechyd corfforol a meddyliol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Roedd y canlynol ymhlith y meysydd a gwmpaswyd yn y gweithdy ym mis Chwefror, sef edrych ar yr hyn sy'n achosi gordewdra yn y system leol, ansawdd bwyd a deiet, sgiliau coginio, y galw am fwyd afiach, fforddiadwyedd ac argaeledd bwyd iach ynghyd â chyfleustra; mae'r cyfan oll yn dylanwadu ar ymddygiad.

Mae'r camau y gellid eu cymryd i wneud gwahaniaeth yn cynnwys ystyried lleoliad mannau gwyrdd a mynediad iddynt, cyfleoedd ar gyfer teithio llesol, yr hyn sy'n ysgogi diffyg gallu corfforol megis patrymau gwaith, bywydau prysur a fforddiadwyedd gweithgarwch corfforol a sut y gall ysgolion helpu teuluoedd i fwyta'n iach a bod yn egnïol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr angen i gysylltu â chymunedau lleol i ddeall yr hyn y mae pobl leol ei eisiau a sut y gall partneriaid y BGC gydweithio a chymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd. Bydd yn bwysig ystyried yr hyn y gall partneriaid y BGC ddylanwadu arno a sut rydym yn cefnogi ein gweithlu o ran yr ymddygiadau iach hyn.

Cytunwyd mai'r cam nesaf yw rhoi blaenoriaeth i faes y canolbwyntir arno, ynghyd â nifer fach o gamau cydweithredol.

4. Datblygu ein Strategaeth Fwyd Leol Sir Gaerfyrddin

Rhoddodd Alex Cook, Swyddog Datblygu Bwyd Cyngor Sir Gaerfyrddin, drosolwg o'r amlinelliad drafft hwn ar gyfer datblygu Strategaeth Fwyd Leol. Fe'i paratowyd gan ymgynghori â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys Partneriaeth Bwyd Sir Gâr, a hynny ochr yn ochr ag adolygiad o strategaethau, polisïau, papurau ymchwil diweddar a gweithdrefnau gweithredu.

Mae'r strategaeth yn adeiladu ar weledigaeth a rennir i fwrw ymlaen â chynlluniau gweithredu drwy ddull sy'n seiliedig ar leoliad, partneriaeth a phrosiect – 'System Fwyd Sir Gâr sy'n cynhyrchu, yn hyrwyddo ac yn darparu bwyd iach a chynaliadwy sy'n addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol'. Hyd yn hyn, gwnaed cynnydd sylweddol gan bartneriaid y BGC gan ddefnyddio cyllid yr Economi Sylfaenol a ddangosodd sut y mae partneriaid y BGC yn effeithio ar y system fwyd. Roedd hyn wedi nodi'r angen am Strategaeth Fwyd gydlynol a chyfannol sy'n dangos sut y gellid gwella arferion a pholisïau cyfredol sefydliadau.

Adolygwyd effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol partneriaid y BGC ar y system fwyd. Dangosodd dadansoddiad o wariant bwyd 35% o ddadleoliad. Nodwyd rhwystrau y bydd angen eu goresgyn ac mae'r rhain yn cynnwys pwysau ariannol, polisïau, hyfforddiant, sgiliau, arloesi a seilwaith. Bydd angen darparu cymorth ar lefel sefydliadol a chymunedol. Mae ein system fwyd leol yn canolbwyntio'n llwyr ar gynhyrchu bwyd ond mae angen inni gynhyrchu mwy o'r hyn rydym yn ei fwyta.

Nodir chwe nod bwyd yn y strategaeth arfaethedig:

1. Bwyd i Bawb
2. Bwyd ar gyfer Iechyd y Cyhoedd
3. System Fwyd Sero Net
4. Ffermio ar gyfer Natur a'r Hinsawdd
5. Caffael Bwyd Cynaliadwy
6. Bywoliaeth a Swyddi Cynaliadwy yn y Sector Bwyd.

Gwahoddwyd safbwyntiau ar y ddogfen ddatblygu. Canmolwyd y drafft a nodwyd y gorgyffwrdd â'r eitem flaenorol ar yr agenda yn ymwneud â Phwysau Iach.

Cytunwyd bod angen mewnbwn ehangach i gyfrannu at drafodaethau yn y dyfodol er mwyn ystyried beth y gellir ei wneud i weithredu'r newid y mae ei angen. Mae angen ymgysylltu â'r gymuned ffermio, y Panel Ymgynghorol ar Faterion Gwledig a'r Panel ar Newid yn yr Hinsawdd.

Cafodd y defnydd o'r term 'nodau' ei gwestiynu oherwydd Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru ac awgrymwyd bod 'canlyniadau' yn derm mwy priodol.

CAM GWEITHREDU

Ymateb gydag unrhyw sylwadau ar y cyflwyniad 'Gweithdy Mapio'r System o ran Pwysau Iach' drwy gysylltu â [Beth Cossins](#) a chysylltu ag [Alex Cook](#) gyda sylwadau ar Fersiwn Drafft Strategaeth Fwyd Leol Sir Gâr **erbyn 31 Mai**

PAWB

5. Cofnodion a Materion yn Codi

28 Chwefror 2023

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

6. Mabwysiadu Cynllun Llesiant

Roedd y pedwar partner statudol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, CNC, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin - wedi cymeradwyo fersiwn terfynol y Cynllun Llesiant. Ailgynlluniwyd y Cynllun ac roedd y cynnwys yn aros yr un fath a nodwyd bod mân newidiadau dylunio i'w gwneud.

Mabwysiadodd y BGC ei Gynllun Llesiant.

7. Digwyddiad Blynyddol y BGC

Cynhelir digwyddiad blynyddol cychwynnol y BGC ar 16 Mai, 9.30 – 1, yng Nghanolfan John Burns, Cydweli.

Nod y digwyddiad yw canolbwyntio ar Gyfranogiad a Chydgyhyrchu trwy rannu a dysgu o arferion gorau lleol a chenedlaethol. Bydd cyfle hefyd i drafod Cynllun Llesiant y BGC ar gyfer 2028 a bod yn rhan o adeiladu strwythur cyflawni newydd y BGC wrth i'r camau nesaf gael eu hystyried i alluogi gweithredu'r Cynllun.

Y CAM GWEITHREDU

Darparu enwau swyddogion erbyn 28 Ebrill , sydd ag arbenigedd yn y meysydd a gwmpesir gan yr Amcanion Llesiant, i'w gwahodd i ddigwyddiad blynyddol y BGC ar 16 Mai 9.30am-1pm yng Nghanolfan John Burns, Cydweli	PAWB
--	------

8. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw faterion.

7. Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol

- 18 Gorffennaf 2023 (2 pm) - yn rhithwir
- 27 Medi 2023 (10 am) – yn bersonol
- 21 Tachwedd 2023 (10 am) – yn rhithwir.